

# Gwybod Eich Hawliau

## Eich canllaw i Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000



Ysgrifennwyd y ddogfen hon gan **Anabledd Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o 'Gwybod eich hawliau Defnyddio eich hawliau Byw eich hawliau'.

Mawrth 2022

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon



Dogfen hawdd ei deall yw hon. Ond efallai y byddwch chi dal angen cymorth i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych yn ei adnabod i'ch helpu chi.



Gallai geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** fod yn anodd eu deall. Gallwch chi wirio beth mae'r holl eiriau mewn glas yn eu golygu ar **dudalen 16**.



Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn golygu **Anabledd Cymru**. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:** [www.disabilitywales.org/cy](http://www.disabilitywales.org/cy)

**E-bost:** [info@disabilitywales.org](mailto:info@disabilitywales.org)

**Ffôn:** 02920 887 325



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio Photosymbols. I ddweud wrthon ni beth yw eich barn am y ddogfen hawdd ei deall hon, [cliciwch yma](#).

# Cynnwys

## Tudalen

Cyflwyniad.....	4
Ynglŷn â'n gwaith.....	5
Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.....	7
Gwybod eich hawliau.....	10
Defnyddio eich hawliau.....	13
Rhagor o wybodaeth.....	15
Geiriau anodd.....	16

# Cyflwyniad



Ysgrifennwyd y llyfryn hwn gan **Anabledd Cymru**.



Mae'r llyfryn hwn ar gyfer Pobl Anabl a Sefydliadau Pobl Anabl.



Mae'r llyfryn hwn yn rhoi gwybodaeth am **Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000**. Ond nid cyngor cyfreithiol yw e.



Mae cyfanswm o 8 llyfryn. Mae gan bob llyfryn wybodaeth am gyfraith wahanol.



Roedd y llyfryn hwn yn gywir ym mis Ionawr 2021. Ond gallai **Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000** newid yn y dyfodol.

# Ynglŷn â'n gwaith



Rydym yn gweithio'n galed i ddiogelu **hawliau** Pobl Anabl.



**Hawliau** yw'r pethau y caniateir i chi eu gwneud. Er enghraifft, mae gennych chi'r hawl i briodi a'r hawl i bleidleisio.

Mae **hawliau** yn dweud wrthon ni sut y dylen ni gael ein trin. Er enghraifft, mae gennych chi'r hawl i gael eich trin â pharch.


Mae gan bobl eraill **hawliau** hefyd. Er enghraifft, rhaid i chi drin pobl eraill â pharch.



Yn 2020, gofynnwyd i Bobl Anabl yng Nghymru am eu **hawliau**.



Dywedodd llawer o Bobl Anabl wrthon ni nad oedd eu **hawliau** yn cael eu diogelu'n dda yng Nghymru.



Roedd llawer o Bobl Anabl yn teimlo na fyddai hyn yn gwella yn y dyfodol.



Rydyn ni am i Bobl Anabl wybod a defnyddio eu **hawliau**. Ac i deimlo'n ddiogel.



Fe wnaethon ni ysgrifennu'r 8 llyfryn hyn i helpu.

# Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000



Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn dweud y gall unrhyw un ofyn i **gyrff cyhoeddus** am wybodaeth.



Mae **gyrff cyhoeddus** yn wasanaethau sy'n cael eu rhedeg i'r cyhoedd. Er enghraifft, y GIG, awdurdodau lleol, parciau cenedlaethol, neu'r gwasanaeth tân.



Er enghraifft, gallwch chi ofyn i **gyrff cyhoeddus** am sut maen nhw'n rhedeg eu gwasanaethau. Neu sut maen nhw'n gwario eu harian.



Byddwn ni'n galw **Rhyddid Gwybodaeth** yn y **Ddeddf** yn fyr.



Mae'r **Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth** yn dweud y gallwch chi ofyn am wybodaeth gan:

- y llywodraeth
- cyngorau
- y GIG
- ysgolion
- yr heddlu.

Mae'r wybodaeth y gallwch chi ofyn amdani yn cynnwys:



- dogfennau wedi'u hargraffu
- ffeiliau cyfrifiadurol
- llythyrau ac e-byst



- ffotograffau
- recordiadau fideo neu sain.





Os ydych chi am gael gwybodaeth sydd gan **gyrff cyhoeddus** amdanoch chi, peidiwch â defnyddio'r **Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth**.



Defnyddiwch y **Ddeddf Diogelu Data** yn lle hynny. Dysgwch fwy am y **Ddeddf Diogelu Data** yn y **Llyfryn Gwybod Eich Hawliau - Mwy o Wybodaeth**.

# Gwybod eich hawliau



Os gofynnwch chi i **gorff cyhoeddus** am wybodaeth, bydd hyn yn cael ei alw yn gais **Rhyddid Gwybodaeth**.



Gall cael gwybodaeth fel hyn fod yn ddefnyddiol. Er enghraifft, efallai y byddwch chi'n defnyddio'r wybodaeth i brofi **gwahaniaethu**.

**Gwahaniaethu** yw pan fyddwch chi'n cael eich trin yn wael neu'n annheg oherwydd eich rhyw, hil, crefydd, anabledd neu hunaniaeth rywiol.

Gallai'r wybodaeth eich helpu i wneud hawliad gan ddefnyddio 1 o'r cyfreithiau hyn:



- **Y Ddeddf Cydraddoldeb.** Gweler **Gwybod eich Hawliau – Eich canllaw i Ddeddf Cydraddoldeb 2010** i gael rhagor o wybodaeth am y gyfraith hon.



- **Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.** Gweler **Gwybod eich Hawliau - Eich canllaw i Ddyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus** i gael rhagor o wybodaeth am y gyfraith hon.



- **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl.** Gweler **Gwybod eich Hawliau - Eich canllaw i Gofensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl** i gael rhagor o wybodaeth am y gyfraith hon.



Efallai y bydd **corff cyhoeddus** yn dweud na wrth eich cais **Rhyddid Gwybodaeth**. Er enghraifft, gallan nhw ddweud na os byddwch chi'n gofyn am wybodaeth breifat rhywun arall.



A gallan nhw ddweud na os bydd eich **cais Rhyddid Gwybodaeth** yn costio llawer o arian iddyn nhw.



Os bydd **corff cyhoeddus** yn dweud na wrth eich cais **Rhyddid Gwybodaeth**, dylen nhw egluro pam.



Os nad ydych chi'n hapus â'u rhesymau, cwynwch wrth y **Comisiynydd Gwybodaeth**.

# Defnyddiwch eich hawliau



Cyn i chi wneud **cais Rhyddid Gwybodaeth**, edrychwch ar wefan y sefydliad. Rhag ofn bod y wybodaeth rydych chi ei heisiau yno'n barod.



Os ewch chi ymlaen â **cais Rhyddid Gwybodaeth**, rhaid gwneud hynny'n iawn.

Rhaid i chi wneud **cais Rhyddid Gwybodaeth** drwy lythyr neu e-bost. A dylech chi gynnwys:



- eich enw
- eich cyfeiriad



- pa wybodaeth rydych chi ei heisiau
- os ydych chi'n bwriadu rhannu'r wybodaeth gydag unrhyw un arall.



Dywedwch yn eich **cais Rhyddid Gwybodaeth** os oes angen gwybodaeth arnoch mewn ffordd benodol. Fel Hawdd ei Ddeall.



Rhaid i **gyrff cyhoeddus** roi gwybodaeth i chi mewn ffordd rydych yn ei deall. Dyma'r gyfraith.



Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu am **gais Rhyddid Gwybodaeth**. Bydd y **corff cyhoeddus** yn dweud wrthy'ch chi a oes angen i chi dalu unrhyw beth. Fel costau postio.



Os byddwch chi'n gwneud **cais Rhyddid Gwybodaeth**, dylech chi gael ateb o fewn 4 wythnos.



Os yw'n mynd i gymryd mwy o amser, bydd y **corff cyhoeddus** yn rhoi gwybod i chi.

# Rhagor o wybodaeth

Mae rhestr o adrannau, asiantaethau a chyrrff cyhoeddus eraill y llywodraeth yma:

[www.gov.uk/government/organisations](http://www.gov.uk/government/organisations)

Mae gwybodaeth am y Comisiynydd Gwybodaeth, a sut i wneud cwynion, yma:

[cy.ico.org.uk/make-a-complaint](http://cy.ico.org.uk/make-a-complaint)

Mae gan yr elusen Cerebra lawer o dempledi llythyrau defnyddiol. Gan gynnwys un ar gyfer ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth:

[cerebra.org.uk/download/we-want-to-ask-for-information-under-the-freedom-of-information-act/](http://cerebra.org.uk/download/we-want-to-ask-for-information-under-the-freedom-of-information-act/)

# Geiriau anodd

## Cyrff cyhoeddus

Mae cyrff cyhoeddus yn wasanaethau sy'n cael eu rhedeg i'r cyhoedd. Er enghraifft, y GIG, awdurdodau lleol, parciau cenedlaethol, neu'r gwasanaeth tân.

## Gwahaniaethu

Gwahaniaethu yw pan fyddwch chi'n cael eich trin yn wael neu'n annheg oherwydd eich rhyw, hil, crefydd, anabledd neu hunaniaeth rywiol.

## Hawliau

Hawliau yw'r pethau y caniateir i chi eu gwneud. Er enghraifft, mae gennych chi'r hawl i briodi a'r hawl i bleidleisio.

Mae hawliau'n dweud wrthon ni sut y dylen ni gael ein trin. Er enghraifft, mae gennych chi'r hawl i gael eich trin â pharch.

Mae gan bobl eraill hawliau hefyd. Er enghraifft, rhaid i chi drin pobl eraill â pharch.